**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol Gogledd Eryri a gynhaliwyd ddydd Llun 10 Mehefin am 5.45yh yng Ngwesty Ty’n y Coed, Capel Curig.**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol** - **Aelodau** : | Mr Edwin Noble<br>Mr Richard Williams<br>Mr Mark Jones<br>Mr Dafydd Gwyndaf<br>Mr Tim Jones<br>Mrs Maggi Barry | Mr David Firth<br>Mr John Gladston<br>Mrs Fiona Davies<br>Mr Arthur Davies<br>Mr Paul Williams<br>Mr Dafydd Jones |
| **Swyddogion / Siaradwyr:** | Peter Rutherford (APCE)<br>Bethan W Jones (APCE) | Rhian P Williams (APCE) |

**1. Ymddiheuriadau:** Mr Connor A Watt.

Cyhoeddodd PR fod CW wedi rhoi'r gorau i fod yn aelod ac y byddai angen o fewn y sector hamdden i’w ddisodli.

O dan y rheoliadau gall y FfMLl gyfethol aelodau os oes angen ond byddai angen i unrhyw geisiadau gael eu cadarnhau gan yr Awdurdod.

Byddai'n gwneud ymholiadau am ddarpar ymgeiswyr.

**2 . Cofnodion Blaenorol**

Cymeradwywyd.

**3. Materion yn Codi**

**i)** Cynllun Ffermio Cynaliadwy – ymateb gan y Fforwm Mynediad

*Dywedodd EN fod hon yn eitem 8 ar yr agenda ac y bydd yn cael ei thrafod yn ddiweddarach.*

**ii)** Page 3 atebolrwydd tir mynediad CGHT ar gyfer digwyddiadau.

Dim byd pellach i'w ychwanegu yn dilyn trafodaeth flaenorol

**iii)** Digwyddiad yn Ogwen.
Mae anawsterau wedi bod mewn perthynas ag un digwyddiad yn Ogwen ddiwedd y tymor diwethaf. Roedd y PC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a rhai o denantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cyfarfod â'r trefnwyr a mynegwyd ein barn ar yr hyn a ddigwyddodd ac ystyriwyd bod hwn yn berfformiad gwael yn gyffredinol.

Roeddent wedi cytuno i gywiro unrhyw ddifrod, gwneud iawn, ac ailystyried eu logisteg a'u gweithgareddau.

Dywedodd PR fod hyn wedi bod yn siomedig iawn ac wedi adlewyrchu'n wael ar ddigwyddiadau eraill a oedd wedi'u trefnu'n dda ac a gafodd eu cynnal heb ffwdan. Gwaethygwyd hyn gan fod y PC a'r YG ar y cyd wedi cyfarfod â'r trefnwyr

fisoedd lawer cyn y digwyddiad i egluro ein sefyllfa a'r hyn a ddisgwylid o ran trefniadaeth.

*Gofynnodd TJ beth oedd y materion penodol o dan sylw.*

Atebodd PR fod hyn yn ymwneud â phobl yn dringo dros waliau, ffensys, arwyddion gwael, pobl ar goll a pheth cam-gyfathrebu a stiwardio gwael.

*Soniodd JG ei fod wedi derbyn cwynion o Lanberis am sŵn a goleuadau yn ardal Teras Fictoria yn hwyr yn y nos/yn gynnar yn y bore.*

Sylwodd PR mai'r cyngor safonol ar gyfer digwyddiadau o unrhyw fath sy'n defnyddio llwybr Llanberis oedd, wrth deithio drwy ardaloedd preswyl yn Llanberis, yn enwedig yn hwyr yn y nos, bod disgwyl i drefnwyr sôn am hyn yn eu briffiau ac y dylid cadw sŵn a goleuadau i'r isafswm o ddifri yn ystod oriau hwyr a'r un peth ar gyfer y rhai oedd yn mynd i fyny'r mynydd yn gynnar yn y bore.

Gofynnodd i JG a oedd ganddo enghreifftiau fel y gallent gael sgwrs gyda'r trefnwyr perthnasol.

*Soniodd JG fod y system tanoi wedi dechrau yn gynnar iawn yn Llanberis ac roedd yn swnllyd.*

Dywedodd PR fod hyn ar dir Cyngor Gwynedd, nhw sy'n rheoli'r gweithgareddau hyn, ac roedd ganddynt rai rheolau yr oedd yn rhaid i bobl eu dilyn fel rhan o'r drefn o logi'r cae. Byddai'n crybwyll hyn wrth dîm Digwyddiadau Gwynedd.

Ychwanegodd fod cyfathrebu gyda thirfeddianwyr yn bwysig hyd yn oed wrth ddefnyddio Hawliau Tramwy gan y gallai rhai gweithgareddau gael eu cynllunio megis casglu, symud stoc, ffensio neu reolaeth tir arall. Felly roedd yn bwysig bod pob posibilrwydd yn cael ei ystyried a gwnaeth y PC y pwyntiau hyn yn glir iawn i'r trefnwyr o'r cychwyn cyntaf.

*Soniodd DG fod ITERA yn cynnal digwyddiad drwy Gwm Penmachno fis nesaf ac efallai y bydd rhedwyr yno yn hwyr yn y nos neu'n gynnar yn y bore. Yr oedd wedi cael gwybod trwy lythyr.*

Soniodd PR eu bod wedi cyfathrebu â'r PC ond dim ond tua 150 o redwyr oedd hyn ac yn seiliedig ar flynyddoedd blaenorol roedd y digwyddiad hwn fel arfer wedi mynd yn dda ac ni fu unrhyw broblemau.

**iv)** T3 Soniodd PR ei fod wedi rhoi rhai geiriau i mewn am adroddiad Hobhouse a arweiniodd at Ddeddf PC 1949. Mae copi gwreiddiol o'r map a'r adroddiad yn ei swyddfa (yn cael ei warchod yn ffyrnig) os oes unrhyw un yn dymuno gweld hwn unrhyw bryd byddai ar gael. Roedd yn ddogfen ddiddorol iawn (ymhell y tu hwnt i'w hamser) ac yn dal yn berthnasol heddiw.

**v)** Dywedodd PR ei fod, yn dilyn cyflwyniad Llwybr Traws Eryri gan Keiran Foster Cycling UK, wedi mewnosod eu system graddio beicio mynydd er gwybodaeth i'r aelodau.

**4. Gohebiaeth**

**i)** Llythyr i Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd - terfyn cyflymder Pen y Pass

**ii)** Llythyr ymateb gan Gyngor Gwynedd i'r llythyr uchod.

Roedd PR wedi derbyn ymateb gan Briffyrdd Gwynedd am y cyfyngiad cyflymder yn PyP. Roeddent wedi nodi nad oeddent yn bwriadu newid hyn ond argymhellwyd ein bod yn codi hyn gyda Phartneriaeth Eryri. Roedd y llythyr yn nodi y gallai fod newidiadau i ddeddfwriaeth ac elfennau ariannu yn y dyfodol agos ac efallai y bydd cyfle i adolygu hyn eto.

Dywedodd PR fod hyn yn siomedig gan nad oedd y sefyllfa'n dda gyda chymaint o geir, bysiau, pobl ar droed yn gyffredinol a hefyd teithio yn ôl ac ymlaen i'r YHA. Mae bellach wedi trosglwyddo hwn i Swyddogion y Bartneriaeth i'w drafod gyda golwg ar ychwanegu at y ddadl.

**5. Datganiad sefyllfa Hamdden Eryri**

Cyhoeddodd PR fod y ddogfen hon bellach ar gael i bawb ar y wefan. Roedd y teitl wedi'i newid i Ddatganiadau Sefyllfa (yn dilyn argymhelliad gan ein hymgynghorydd) ac roedd yn ddiolchgar i'r aelodau am eu holl fewnbwn a'u hawgrymiadau dros y 2 flynedd ddiwethaf. Roedd copïau caled ar gael heno ac mae fersiynau electronig ar gael hefyd.

*Soniodd TJ fod yr Awdurdod wedi gwneud rhai awgrymiadau. Ac wedi argymell y dylid cynnwys gwersylla gwyllt ynghyd â chyfeiriadau at y cod gwersylla gwyllt. Roedd yn gwerthfawrogi bod gwersylla anghyfreithlon yn broblematig yn hytrach na gwersylla gwyllt fel y cyfryw gan y rhai a oedd yn deall gwir ethos y gweithgaredd hwn a sut y dylid ei gynnal.*

*Soniodd JG fod rhywfaint o ddryswch mewn rhai mannau ynghylch y term `gwersylla gwyllt` a beth oedd ystyr hyn mewn gwirionedd.* Gall gwersylla pellennig fod yn fwy perthnasol.

*Ychwanegodd MJ fod hyn yn anodd a gwneud yn siŵr bod mwy o bobl yn deall y syniad o wersylla gwyllt ond yn gwerthfawrogi eu bod yn negeseuon anodd i'w cyfleu.*

**6. Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy –** Ymroddi Coetir Eryri ym mherchnogaeth y Parc Cenedlaethol. (Adran 16 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy)

Cyhoeddodd PR fod CNC, sawl blwyddyn yn ôl, wedi gofyn i’r Parciau Cenedlaethol adolygu eu daliadau coedwigaeth gyda’r bwriad o neilltuo’r rheini fel ‘tir mynediad’ o dan Adran 16 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Er iddo ddod i'r Fforwm Mynediad Lleol yn y gorffennol - roedd wedi ailasesu hyn yn ddiweddar gyda'r bwriad o neilltuo 4 o goetiroedd y PC. Dangosodd fapiau o – Brynbrethynnau (Capel Curig), Coed Hafod (Betws y Coed), Farchynys (Bont Ddu) ac Abergwynant (Dolgellau).

Mater i'r tirfeddianwyr yn unig oedd neilltuo coetiroedd fel coedwigoedd - roedd y pedwar hyn yn eiddo rhydd-ddaliadol o'r PC. Byddai neilltuo yn lleihau atebolrwydd posibl y PC am goed a nodweddion naturiol eraill er na fyddai hyn yn lleddfu cyfrifoldebau am faterion neu beryglon hysbys (o dan Atebolrwydd Deiliaid). Soniodd fod yr holl rydd-ddaliad coedwigaeth sy'n eiddo i'r wladwriaeth wedi'i neilltuo fel tir mynediad yn 2002 a'i fod bellach o fewn cylch gorchwyl CNC.

Roedd proses ffurfiol i hyn ac roedd hefyd yn destun pridiannau tir ond credai fod hyn yn werth chweil. Yn seiliedig ar farn yr aelodau bryd hynny ei gam nesaf oedd mynd â phapur i'r Tîm Rheoli - yr Awdurdod bryd hynny. Yr oedd cysegriad/ymroddi yn ddigwyddiad am byth.

Gofynnodd i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw farn ar hyn.

*Gofynnodd PW a oedd ffensys yn ffinio â'r ardaloedd hyn fel y byddai'n glir lle mae'r llinellau terfyn ar gyfer pobl ac i osgoi dryswch neu grwydro ar dir arall nad yw'n dir mynediad.*

Dywedodd Pr fod hyn yn ystyriaeth bwysig a bod holl goetiroedd y PC wedi'u ffinio gan ffensys.

Pe bai unrhyw fuddion trydydd parti yna byddai'n rhaid iddo wneud ymholiadau gydag eraill a chan nad yw wedi'i wneud gan y PC o'r blaen nid yw'n glir pa mor gymhleth neu anghymhleth y gallai hyn fod.

*Gofynnodd TJ a oedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni aros am yr adolygiad mapio CGHT nesaf.*

Dywedodd PR fod hwn yn sylw diddorol. Roedd y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn nodi y dylid adolygu mapiau CGHT bob deng mlynedd. Roedd un yn 2013. Fodd bynnag, mae adolygiad 2023 wedi'i ohirio gan Lywodraeth Cymru i 2029. Er mwyn cwmpasu unrhyw ddeddfwriaeth newydd a allai ymddangos yn y canol. O ystyried nad oes proses fapio, roedd yn anodd gweld sut y gellir ychwanegu neu ddileu unrhyw ychwanegiadau newydd neu ddileadau ar y mapiau CGaHT (a mapiau AO wedi hynny).

Roedd adolygiad 2013 yn gorff sylweddol o waith i CNC ac o ystyried sefydlogrwydd y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a thir mynediad gan y credai'r PC y gallai fod yn ddiangen mynd drwy'r ymarfer hwnnw eto.

Roedd y PC wedi argymell drwy'r Grwpiau Diwygio Mynediad (ARAG) nad oes angen adolygiadau bellach ac y dylem dderbyn pethau fel ag y maent (maint y tir mynediad fel ag y mae) a gadael i Fforymau Mynediad Lleol ystyried ychwanegiadau neu ddileadau lleol fel y maent yn ymddangos ar achosion unigol yn seiliedig ar y meini prawf gwreiddiol o fod yn 'dir heb ei wella' neu drwy gysegriad.

O ran cysegriad y coetiroedd gan y PC, roedd PR yn chwilio am gefnogaeth gan aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol i symud hyn ymlaen.

*Gofynnodd AD a fyddai hyn yn effeithio ar unrhyw Hawliau Tramwy presennol yn yr ardaloedd hyn.*

Dywedodd PR nad oedd neilltuo ardaloedd yn effeithio ar HTC y tu mewn i'r coetiroedd hynny ac na fyddent yn cael eu heffeithio.

*Gofynnodd EN a fyddai'r aelodau'n cefnogi hyn.*

Cytunodd yr Aelodau i gefnogi hyn.

**7. Ardal Warden Ardal y Gogledd - Diweddariad**

Cyflwynodd BWJ ei hun fel yr Uwch Warden ar gyfer ardal ogleddol y PC ac roedd yn gyfrifol am y Wardeiniaid o fewn 5 ardal ar wahân yng ngogledd y PC.

Dangosodd sleidiau o'r meysydd a gwmpaswyd gan ei thîm a pha waith a wnaed ganddynt.

Alan Prichard fu'n gyfrifol am y Carneddau ac Ogwen
Ioan Davies – ardal Nant Conwy
Alun Gethin Jones, Ffion Parker ac un tymhorol ychwanegol ar gyfer Yr Wyddfa. Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys Beddgelert, Nant Gwynant, Nant Peris i lawr i Lanberis, Rhyd Ddu a Chwellyn.
Mae BWJ ei hun hefyd yn gwasanaethu Cwmystradllyn a Chwm Pennant.
Mae Simon Roberts yn cwmpasu – Maentwrog a Ffestiniog.

Pe bai aelodau'n dymuno cysylltu â'u wardeniaid ardal ar unrhyw adeg yna byddai croeso iddynt wneud hynny i drafod unrhyw faterion mynediad.

Mae'r gwasanaeth bob amser wedi bod yn 'llygaid ac yn glustiau' fel petae ar lawr gwlad ac yn gweithio gydag eraill i ddatrys materion fel arwyddion wedi torri, dodrefn a chynnal a chadw sylfaenol pan fo hynny'n bosibl. Maent hefyd yn gweithio gyda Chynghorau Gwynedd a Chonwy pan fo angen.

Roedd sleidiau ychwanegol yn dangos gwaith a wnaed gan dimau Wyddfa ers y gwanwyn – gwaith ar drac y Mwynwyr – glanhau ceuffosydd draenio ac ail-wynebu mewn sawl man i fyny Llyn Llydaw.

Maent hefyd yn gweithio gydag adran gyfathrebu'r PC i roi gwybodaeth berthnasol ar ein gwefan a hefyd arwyddion ar lawr gwlad, fel cyngor ynghylch cadw cŵn ar dennyn, gwybodaeth am lwybrau a chyngor ar ddiogelwch.

Mae'r gwasanaeth Warden hefyd yn trefnu teithiau cerdded misol i'r cyhoedd ac yn cylchdroi hyn rhwng gogledd a de'r PC.

*Gofynnodd JG a oedd modd i berson dall ymuno â rhai o'r teithiau cerdded misol. Gofynnodd hefyd a oedd unrhyw ystadegau i ddangos unrhyw gynnydd yn y defnydd o'r awyr agored gan bobl anabl. Roedd yn gwerthfawrogi bod y rhain yn ystadegau anodd eu mesur.*

Atebodd PR fod y defnydd Tramper yn fesur addas ar gyfer hyn a bod y defnydd wedi cynyddu dros y 5-8 mlynedd diwethaf sydd o fudd i'r sector. Roedd y nifer a fanteisiodd ar ein gweithgareddau llesiant a redir gan y PC hefyd wedi cynyddu'n sylweddol ar ôl Covid. Byddai'n gofyn i'r Swyddog Llesiant a Gwirfoddoli geisio manylu ar y ffigurau hyn.

Ychwanegodd BWJ y byddent yn asesu beth ellid ei wneud i ddarparu ar gyfer y person hwn. Yn y gorffennol bu cysylltiad rhwng Cymdeithas y Deillion ac roedd hi'n sicr drwy ein Swyddog Gwirfoddoli a Lles y gellid ailgynnau hyn mewn rhyw ffordd pe bai angen.

Ychwanegodd PR y byddai'n trafod hyn gyda'r Swyddog.

Parhaodd BWJ. Mae yna hefyd Wardeiniaid Gwirfoddol sy'n patrolio'r prif lwybrau ar Yr Wyddfa ac yn casglu sbwriel. Eu cylch gorchwyl oedd rhoi gwybodaeth a helpu i hysbysu'r cyhoedd oedd yn cerdded ynghylch y llwybrau a diogelwch. Maent hefyd yn cynorthwyo gyda staffio'r trelar gwybodaeth a'r fan sy'n cael eu cylchdroi rhwng gwahanol lwybrau o amgylch cyrion Yr Wyddfa.

Mae llawer o waith a phrosiectau eraill yn cael eu gwneud gan y Wardeniaid – cyfeirbwyntiau, wynebau, gatiau, ar draws yr ardal gyfan.

Eglurodd hefyd eu bod hefyd yn treialu system TG rheoli HTC newydd sy'n caniatáu i weithredwyr maes a'r swyddfa gofnodi materion, storio ac edrych ar wybodaeth HTC ar liniadur gan Wardeiniaid yn y maes ac i ymdrin â chwynion.

*Gofynnodd MJ a oedd y Wardeniaid Gwirfoddol yn rhan o gynllun Caru Eryri.*

Atebodd BWJ fod y Wardeniaid Gwirfoddol wedi bod yn eu lle ers 2012/13 gan ddechrau gyda 10 gwreiddiol ac erbyn heddiw mae tua 50 yn patrolio prif lwybrau ar Yr Wyddfa yn bennaf dros y penwythnosau a Gwyliau Banc. Gwirfoddolwyr Caru Eryri sydd â’r dasg, ers diwedd Covid, ac ar y cyd â Chymdeithas Eryri – Cymdeithas Yr Wyddfa i gasglu sbwriel, gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw sylfaenol ar lwybrau, rhywfaint o waith ecolegol a hefyd rhoi cyngor i’r cyhoedd.

*Gofynnodd MJ sut yr oedd y cerbyd Tramper yn cael ei hysbysebu.*

Dywedodd BWJ fod yr holl wybodaeth yn ymwneud â'r cerbydau hyn i'w defnyddio gan ddefnyddwyr anabl a llai abl trwy system archebu ar gael ar wefan y PC.

Cadarnhaodd PR fod system archebu ymlaen llaw o 4 wythnos i ganiatáu digon o amser i ffitio i mewn i gynlluniau gwaith y Wardeniaid a symud y cerbydau hyn i'r safle o dan sylw os oedd angen.

*Dywedodd MJ fod y Bartneriaeth Awyr Agored yn awyddus i hyrwyddo mwy o hygyrchedd yn yr awyr agored a gofynnodd a allent helpu i hysbysebu hyn.*

Dywedodd PR fod un peiriant yn Forest Holidays ym Meddgelert yn cael ei ddefnyddio'n ddyddiol a'r llall yn y ganolfan Wardeniaid yn Nolgellau, sy'n cael ei ddefnyddio'n wythnosol, neu fwy ar Lwybr Mawddach. Mae yna hefyd beiriant pedair olwyn Da Vinci a fwriadwyd ar gyfer pobl ifanc anabl neu lai abl (mae’r peiriant yn cael ei atgyweirio ar hyn o bryd).

Ychwanegodd mai'r hyn sydd fwyaf defnyddiol am y Tramper[1] (sef yr enw masnachol) yw bod ganddo reolaethau cildroadwy felly gellir eu haddasu'n gyflym i bobl a allai fod wedi'u parlysu ar un ochr fel dioddefwr strôc ac mae hyn yn rhoi mwy o ymdeimlad o annibyniaeth i ddefnyddwyr. Mae hefyd yn golygu nad oes rhaid i ofalwyr wthio na thynnu unrhyw offer. Gellir defnyddio hwn ar lawer o

[1]Cerbyd tramper – cerbyd anabledd cyfreithlon ffordd pedair olwyn sy’n cael ei bweru gan fatri a gynhyrchir gan Beamer Ltd.

draciau awyr agored nad ydynt o reidrwydd wedi'u hadeiladu i bob safon gallu. Roedd Lôn Gwyrfai yn enghraifft dda o hyn.

Roedd set o fideos llwybr i'r anabl hefyd ar gael ar wefan y PC. roedd hyn yn galluogi defnyddwyr i benderfynu beth oedd yn addas ar eu cyfer ac nid yr hyn a ragnodwyd gan y PC. Byddai'n dangos y rhain i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf.

*Gofynnodd DF a oedd y teithiau cerdded yn cael eu hysbysebu.*

Atebodd BWJ fod y teithiau cerdded wedi'u hysbysebu ar wefan y PC.

*Soniodd DF fod darn diweddar wedi bod ar Radio Wales am brawf cerbyd oddi ar y ffordd newydd ar Yr Wyddfa ac a oedd y PC yn ymwneud â hyn.*

Atebodd PR fod y grŵp hwn wedi bod mewn cysylltiad ag ef. Er ei fod yn gynllun newydd roedd wedi amlinellu'r anawsterau a ddaw yn sgil dringo'r Wyddfa gyda cherbyd sy'n cael ei bweru gan fatri, waeth beth fo'i allu unigryw i fordwyo bob math o dirwedd. Roedd ein Swyddog Gwirfoddoli a Lles wedi bod allan gyda nhw ar eu hymgais gyntaf ac roeddent wedi canfod bod cynhwysedd batris yn broblem ac roedd angen iddynt gario batris ychwanegol ar gyfer eu hesgyniad, a oedd yn anodd.

Eleni roedd wedi derbyn nifer o geisiadau gan bobl oedd yn dymuno mynd i fyny’r Wyddfa mewn cadeiriau olwyn ac roedd rhai yn meddwl bod hyn yn gwbl gyraeddadwy ac nid yw hynny'n wir. Mae llawer o anawsterau ac mae angen llawer iawn o gymorth logistaidd i sicrhau llwyddiant. Roedd un cadair olwyn angen tîm o 10 o leiaf i gynorthwyo gyda chludo rampiau, rhaffau ac ati. Mae'r Backup Trust yn gwneud hyn ar Yr Wyddfa yn flynyddol gyda nifer o ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac mae gan bob un ei dîm ei hun ond mae eu sefydliad yn hyddysg yn hyn a rhaid canmol yr hyn maent yn ei gyflawni.

*Ychwanegodd JG, o ran y defnyddwyr, fod yna ddeinameg arall i bobl anabl a'u cynorthwywyr eu hystyried megis hyperthermia (straen gwres) - hypothermol (straen oer) neu ffactorau eraill megis lludded-dra a allai effeithio ar salwch tymor hir. Dylai'r rhain i gyd fod yn rhan o'u hasesiad risg.*

Soniodd PR nad oedd unrhyw dâl am y Trampyr ond efallai y bydd angen iddynt godi tâl yn y dyfodol i dalu costau cynnal a chadw.

*Gofynnodd PW a oedd gwybodaeth am ardaloedd Wardeniaid ar gael i'r Cyhoedd fel bod pobl yn gwybod â phwy i gysylltu.*

Dywedodd BWJ fod y rhain ar y wefan ond byddai'n cadarnhau hyn.

*Soniodd EN fod un sleid yn dangos camfa ysgol a chredai nad oedden nhw bellach yn cyflenwi nac yn gosod y rhain.*

Atebodd BWJ fod y PC wedi ymrwymo i'r opsiynau lleiaf cyfyngol ac yn dilyn athroniaeth 'Milltiroedd Heb Gamfeydd' yr oedd pob PC yn y DU wedi ymrwymo iddo. Fodd bynnag, roedd hyn oherwydd y lleoliad a'r dirwedd. Mewn tir gwastad neu ychydig yn donnog yna yn sicr byddai gatiau neu giatiau mochyn yn cael eu hystyried i ddisodli ond mewn rhai ardaloedd ucheldirol nid oedd hyn yn ymarferol. Roedd angen asesiad ar gyfer pob llwybr yn seiliedig ar ei rinweddau.

Ychwanegodd PR fod EN wedi codi pwynt pwysig. Nid oedd yna bellach Safon Brydeinig ar gyfer y camfeydd a enwyd uchod ond fel y dywedodd BWJ, mae’n cael ei reoli gan y tir i bob pwrpas ac mewn rhai achosion - megis tir uchel, nid oedd yn bosibl gosod camfeydd na giatiau. Roedd ffiniau hefyd yn faterion pwysig iawn ac roedd angen ystyried hyn yn ofalus gydag unrhyw newidiadau.

*Diolchodd ED i BWJ am ei hamser a'i diweddariad llawn gwybodaeth.*

**8. Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

Eglurodd PR nad oedd hwn yn ymarfer syml gan mai dim ond drwy'r holiadur ar-lein y gellid ymateb. Roedd yn siomedig nad oedd unrhyw gyfeiriadau at fynediad *fel y cyfryw* felly cafodd yr holl atebion eu cynnwys yn y cwestiwn agored diwethaf fel pwyntiau bwled yn seiliedig ar yr hyn yr oedd yr aelodau a'r is-grŵp wedi'i argymell. Roedd yn ymwybodol bod rhai aelodau hefyd wedi ymateb fel unigolion.

Roedd yn siomedig na chafodd mynediad a Hawliau Tramwy a thir mynediad y sylw yr oeddent yn ei haeddu o fewn yr ymgynghoriad a oedd yn wir am yr ymgynghoriad blaenorol. Fodd bynnag, teimlai fod y grŵp wedi gwneud rhai pwyntiau pwysig (papur wedi'i gynnwys fel eitem 8). Aeth dros y gwahanol bwyntiau o fewn yr ymateb.

**9. Cyfethol aelod newydd o'r sector beicio.**

PR – fel y soniwyd yn flaenorol roedd yr aelodaeth bellach yn colli aelod o'r sector hwn ac er mwyn cynnal cydbwysedd y Fforwm roedd yn bwriadu ceisio cael cynrychiolydd beicio mynydd. Byddai'n gwneud ymholiadau i'r perwyl hwnnw.

**10. Eitemau Agenda a Argymhellir ar gyfer y cyfarfod nesaf –**

i) Ymweliad safle â Phorth Penrhyn rhan newydd o'r llwybr arfordirol wedi'i gwblhau yn ddiweddar gan Gyngor Gwynedd. Roedd PR yn meddwl bod hwn yn un diddorol i edrych arno er ei fod ychydig allan o'n hardal ni.

Cytunwyd – byddai PR yn ceisio trefnu diwedd mis Awst neu fis Medi hwn a chysylltu â Swyddog Arfordirol Gwynedd.

**11. Unrhyw Fater Arall**

**i)** Crybwyllodd TJ fod Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri i gael ei adolygu y flwyddyn nesaf a bod angen i bawb gadw hyn mewn cof yn gynnar yn y broses. Roedd yn galonogol iddo gael ei ysgrifennu yn dilyn ymgynghori helaeth gyda defnyddwyr, cymunedau lleol a llawer o sefydliadau eraill a oedd wedi gweithio'n dda.

**ii)** Crybwyllodd PR eu bod wedi diwygio eu cyngor ar ddronau yn ddiweddar. Roedd hwn yn nodi bod yn rhaid cadw amser hedfan i'r lleiafswm a pheidio ag amharu ar ymdeimlad pobl eraill o fwynhad, heddwch a llonyddwch. Roedd Yr

Wyddfa yn broblematig ond roedd rheolau'r CAA[2] yr un mor berthnasol i bob defnyddiwr dronau – dros 250g. *Dywedwyd yn aml wrth PR fod eu dronau yn 249g a oedd yn blino. Ei gyngor bob amser oedd cadw at reolau'r CAA beth bynnag.*

Roedd angen trwydded gan gynnwys ar gopa’r Wyddfa ar gyfer unrhyw ffilmio masnachol ar eiddo'r PC. Fodd bynnag, pe bai ceisiadau'n cael eu gwneud am ffilmio masnachol ar dir preifat byddent bob amser yn cynghori'r gweithredwr i gysylltu â'r tirfeddiannwr perthnasol. O ran eiddo'r YG - ni chaniateir ffilmio ar unrhyw dir heb ganiatâd.

*Gofynnodd JG a oedd gan yr YG eu his-ddeddfau eu hunain.*

Atebodd PR fod gan yr YG eu deddf Seneddol eu hunain a oedd yn caniatáu iddynt wneud llawer o bethau gan gynnwys cyhwyso is-ddeddfau er na allai fod yn sicr ynghylch eu rheolau drone. Ond mae ymholiadau y mae'r PC yn eu derbyn ar gyfer ardaloedd YG yn cael eu trosglwyddo i'r swyddog YG perthnasol sy'n delio â'u holl geisiadau ffilmio masnachol yn ganolog.

*Gofynnodd MJ a oedd y PC ei hun yn defnyddio dronau.*

Atebodd PR fod gan y PC ei ddrôn ei hun, a oedd yn cael ei ddefnyddio at wahanol ddibenion, yn bennaf coetir ecolegol ac weithiau i gynnal arolygon llwybrau.

*Gwnaeth TJ y sylw pe bai is-ddeddfau'n cael eu gweithredu, roedd yn amheus faint o bobl fyddai'n cadw at unrhyw reolau ac yn gwerthfawrogi'r logisteg a'r adnoddau sydd eu hangen i blismona lleoedd fel Yr Wyddfa.*

Ychwanegodd PR fod hyn yn cael ei gymhlethu gan y ffaith bod gweithgareddau awyrennau'n hedfan yn isel yn aml yn yr ardal a bod dronau'n amlwg yn beryglus pe baent yn cael eu camddefnyddio.

iii) Roedd PR wedi derbyn e-bost yn ddiweddar gan Rob Taylor yn rhoi diweddariad ar yr hyn oedd yn Fesur Aelod Preifat ar les anifeiliaid sydd wedi cynnwys manylion cŵn yng nghefn gwlad. Yn anffodus, roedd hyn wedi'i ollwng gan San Steffan fel y nodwyd yn e-bost RT. Roedd hyn yn siomedig o ystyried yr holl wybodaeth yr oedd RT wedi'i bwydo i'r Pwyllgorau Seneddol (Mesur Aelodau Preifat oedd hwn). Felly roedd hi bellach yn fater o aros i weld a beth fyddai'n dod i'r amlwg yn dilyn yr etholiad. Bydd RT yn ein diweddaru os bydd unrhyw beth yn i’r amlwg.

Darllenodd PR e-bost RT yn uchel.

*Cadarnhaodd DJ mai Bil aelodau preifat oedd hwn - wedi'i gynnig gan Ben Lake AS o Geredigion. Roedd hyn hefyd yn siomedig i'r undebau ffermio ond roedd gwrth-lobïau pwerus i hyn.*

*Ychwanegodd TJ ei fod fel Warden gwirfoddol yn ardal Foel Famau wedi profi llawer o ddigwyddiadau lle'r oedd cŵn oddi ar dennyn mewn ardaloedd â stoc.*

[2]Awdurdod Hedfan Sifil – mae’r CAA yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer holl ddefnyddwyr dronau a disgwylir iddynt gofrestru a chael ID defnyddiwr ar gyfer dronau dros 250g. Mae'r CAA yn adolygu eu cyngor cyfredol.

*Ychwanegodd FD fod llawer o ddigwyddiadau nad oeddent yn cael eu hadrodd yn aml yn cynnwys Yr Wyddfa ac nad oedd yr Heddlu yn rhoi blaenoriaeth iddynt.*

*Soniodd PW y gallai fod rhai sefydliadau yn ceisio mwy o fynediad i gefn gwlad yn dilyn yr etholiad ac os felly, yn sicr roedd angen newid rheolau cŵn a gweithgareddau gwrthgymdeithasol eraill sy'n digwydd ar hyn o bryd.*

*Cadarnhaodd TJ fod y mater hwn wedi'i drafod gan Weinidog Llywodraeth Cymru a Chadeiryddion a Phrif Weithredwr y PC (heddiw) a'u bod wedi gwneud y pwynt, os oedd unrhyw hawliau newydd yn cael eu hystyried, bod angen cyfrifoldebau (cyfreithiol) ychwanegol ar hyn.*

*Ychwanegodd PW y byddai angen i beth bynnag fyddai'n dod allan fod yn ddeddfwriaeth gref.*

*Cadarnhaodd TJ fod gan LlC bwerau datganoledig ar gyfer hyn pe bai angen ac efallai y bydd mwy o siawns am newid.*

*Gofynnodd EN i MB fel cynrychiolydd y Cerddwyr beth oedd eu barn ar fynediad ychwanegol.*

*Atebodd MG pe bai unrhyw hawliau ychwanegol yn cael eu dwyn ymlaen yna dylai hyn ddod â chyfrifoldebau ychwanegol.*

Dywedodd PR ei fod yn ansicr beth oedd ystyr mynediad ychwanegol. Roedd 66% o dir PC Eryri eisoes yn `dir mynediad`. Mae gennym ni 1800km o Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Llwybr Arfordir Cymru Gyfan. Felly roedd yn anodd gweld beth allai mynediad ychwanegol fod.

*Dywedodd TJ efallai mai mynediad i ddŵr oedd hwn mewn rhyw ffurf.*

Dywedodd PR fod model Conwy uchaf a osodwyd gan y PC wedi gweithio'n dda ers 2013 wrth reoli canŵio. Roedd wedi gobeithio y gallai LlC fabwysiadu'r model hwn mewn rhyw ffurf.

**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf –**

**14eg Hydref 2024**

**Manylion cyswllt yr Ysgrifennydd**
**Peter.Rutherford@eryri.llyw.cymru**
**07900267538**

*Diolchodd EN i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod heno.*